# Cytûn – Eglwysi ynghyd yng Nghymru

# Ymateb Swyddog Polisi Cytûn i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

0.1 Cytûn yw corff cynrychioliadol y prif enwadau Cristnogol yng Nghymru, sydd â phresenoldeb ymhob cymuned ledled y wlad, ynghyd â nifer o fudiadau Cristnogol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Ceir rhestr aelodaeth lawn yma: https://www.cytun.co.uk/hafan/pwy-ydym-ni/

0.2 Cyflwynir yr ymateb hwn gan Swyddog Polisi Cytûn, y Parch. Gethin Rhys, ar sail ei waith gyda'r eglwysi ac fel Prif Gynrychiolydd ar gyfer Crefydd ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu modd ymgynghori'n llawn â holl aelodau Cytûn am gynnwys yr ymateb, ac felly ymateb personol yw hwn.

0.3 Seilir rhai atebion ar bapur a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyd-ysgrifennwyd gan Gethin ac eraill o fewn y trydydd sector yng Nghymru, ac a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl cyhoeddi adroddiadau 2020 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Swyddfa Archwilio Cymru ar weithredu'r Ddeddf. Gellir gweld y papur llawn yma: http://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Ymateb-i-argyfwng-yr-hinsawdd.pdf

**1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.**

1.1 Y tu allan i Gymru mae'r Ddeddf wedi denu sylw a chanmoliaeth uchel. Rydw i wedi derbyn ymholiadau gan eglwysi yn yr Alban, Lloegr, Gogledd a Gweriniaeth Iwerddon a Chanada i wybod a deall mwy am y Ddeddf. Yn achos yr Alban, mae eglwysi yno yn ystyried gofyn i bleidiau gwleidyddol yno gynnwys ymrwymiad i ddeddf debyg yn eu maniffestos ar gyfer etholiad 2021.

1.2 O fewn Cymru, mae ymwybyddiaeth yn fylchog. Mae rhai eglwysi a mudiadau sifil eraill yn ymwybodol iawn o'r Ddeddf ac yn awyddus i weld ei ffrwyth ym mywydau pob dydd y bobl maent yn gweithio â nhw. Mae eraill yn niwlog iawn eu dealltwriaeth, neu heb glywed amdani o gwbl. Mae gwendid cyfryngau torfol cynhenid Gymreig yn cyfrannu at hyn – er bod sylwedd y cyhoeddusrwydd a roddwyd iddi eleni yng nghylchgrawn y *Big Issue* gyda'i gylchrediad eang ymhlith aelodau eglwysi yng Nghymru a gweddill y DU yn sicr wedi helpu codi ymwybyddiaeth.

**2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu defnyddio.**

2.1 Un gamddealltwriaeth gyffredin ynghylch y Ddeddf yw ei bod yn faich arall ar adnoddau prin cyrff cyhoeddus yng Nghymru – i'w hychwanegu at ddyletswyddau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, yr iaith Gymraeg, safonau amgylcheddol, ayb. Credaf ei bod yn bwysig cyfleu wrth gyrff cyhoeddus fod y "pum dull o weithio" a fandadir gan y Ddeddf yn ddull amgen o weithio – nid yn ddulliau ychwanegol o weithio ar ben y ffyrdd arferol. Wrth lunio polisïau a'u gweithredu mewn modd hirdymor, ataliol, integreiddiedig, cydweithiol a chynhwysol fe ddylid dros amser gallu arbed arian ac adnoddau, yn hytrach na gorfod gofyn am fwy. Bydd meddwl am yr hirdymor wrth lunio polisi a'i weithredu yn arbed gwario adnoddau prin ar ddadwneud canlyniadau annisgwyl; bydd atal problemau rhag codi yn sicr yn arbed adnoddau; bydd integreiddio yn sicrhau nad yw polisïau yn gwrthweithio ac yn

tanseilio ei gilydd; bydd cydweithio yn rhoi cyfle i ragweld anawsterau a dod o hyd i bartneriaid ar y cyfle cyntaf er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon; a bydd bod yn gynhwysol o'r cychwyn yn arbed gwario adnoddau yn nes ymlaen ar geisio cyrraedd grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli neu cyflwyno gwedd ddwyieithog i raglen a ddyfeisiwyd yn y Saesneg yn unig.

2.2 Cefais y cyfle o fod ynglŷn â chyfres o dri gweithdy a ddyfeisiwyd gan nifer o fudiadau trydydd sector ar y cyd â'r gwasanaeth sifil yn gynnar yn 2018. Cyhoeddwyd adroddiad amdanynt, yn dwyn yr enw *Pawb gyda'i gilydd!,* yn Nhachwedd 2018 https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2018-11/WFG%20Workshops%20Report%20FINAL%2035951_Welsh_WEB.pdf Fe ddangosodd y gweithdai hyn werth dull cydweithiol o ystyried y Ddeddf a'i phosibiliadau.

**3. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus.**

3.1 Yn naturiol, nid oes gen i brofiad uniongyrchol o drafodaethau sydd, yn eu hanfod, yn breifat. Roedd yn siomedig mai un aelod o staff y Comisiynydd yn unig fynychodd y gweithdai *Pawb gyda'i gilydd!* yn 2018 (gweler Cn 2), yn enwedig gan fod yr Ysgrifennydd Parhaol a llu o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynychu, a roedd yn gyfle euraidd i ddylanwadu ar y gwasanaeth sifil cyfan.

3.2 Roedd penderfyniad cynnar y Comisiynydd i ddileu Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru yn hynod siomedig, ac wedi tynnu llais benodol Gymreig o drafodaeth bwysicaf ein hoes, a ffynhonnell bwysig o gefnogaeth I gyrff cyhoeddus. Mae ein papur, *Ymateb I argyfwng yr hinsawdd*, yn argymell ail-sefydlu'r corff hwn.

**4. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru.**

4.1 Mae rôl bwysig iawn gan Lywodraeth Cymru wrth hybu'r Ddeddf a'i gweithredu. Mae hyn i'w weld yn dameidiog ar hyn o bryd. Mae yna rai enghreifftiau gloyw o geisio gweu'r nodau llesiant ac (yn llai aml) y dulliau o weithio drwy feysydd polisi yn gyfan.

4.2 Gwelir hynny, er enghraifft ym Mholisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2018. Ysywaeth, nid yw'r un gwead i'w weld yng Nghynllun Cenedlaethol drafft 2040 er gwaetha'r addewidion yn y tudalennau cyntaf. Yn benodol, fe gymerir yn ganiatаol trwy'r ddogfen – fel mewn llawer o ddogfennau eraill Llywodraeth Cymru – fod twf economaidd yn fendith ddigymysg, yn hytrach na mesur amcan o'r fath yn erbyn y nodau llesiant. Nid yw'r Cynllun chwaith yn cynnwys llawer o arwyddion fod y pum ffordd o weithio wedi dylanwadu'n fawr ar ei lunio nac y bwriedir iddynt ddylanwadu ar y gweithredu. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn dangos llai fyth o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i hoblygiadau pellgyrhaeddol. Mae cyhoeddi'r Polisi Cynllunio Cymru newydd ar ôl llunio'r rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Lleol yn dangos diffyg gweithio integreiddiedig, hirdymor ac ataliol, gan leihau ei ddylanwad yn sylweddol.

4.3 Gwelir patrwm tebyg yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Bûm yn rhan o'r broses ymgynghori o gylch y strategaeth hon, a mynychais sawl cyfarfod dan nawdd Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gyda swyddogion a chyda'r Gweinidog ar y pryd, Eluned Morgan AS. Yn y Strategaeth a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020, gwelwyd llawer o bwyslais ar y nodau llesiant, ac roedd y ddogfen derfynol yn wahanol iawn i'r ddrafft gyntaf a welsom, gan ddangos fod dull cydweithiol wedi ei fabwysiadu wrth ei llunio. Serch hynny, roedd yna wendid sylfaenol ym mhennod 3 y strategaeth (Dyma Gymru: Cynhyrchion) lle cyfeirir dim ond unwaith at y

Ddeddf, ac unwaith eto fe gymerir yn ganiataol fod twf economaidd a thwf masnach ryngwladol yn rhywbeth da ynddynt eu hunain, heb ystyried eu heffaith ar yr holl nodau llesiant. Mae dau o'r sectorau economaidd yr awgrymir eu hybu yn benodol (seiber-ddiogelwch a lled-ddargludyddion cyfansawdd) yn gysylltiedig â'r fasnach arfau (ymysg pethau eraill), ond ni cheir yn y strategaeth unrhyw bwyso a mesur ar effaith hybu'r sectorau hyn ar genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru nac ar Gymru fel gwlad sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

4.4 Mae'n galonogol, ar y llaw arall, i Gymru ymuno â [Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant], a byddwn yn gobeithio y byddai arwyddocâd hyn yn teilyngu mwy o sylw yn natganiadau a chynlluniau gweithredu'r Llywodraeth nag un cyfeiriad byr ar dud. 15 un o'r [Cynlluniau Gweithredu] ar gyfer y Strategaeth Ryngwladol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn darlunio mai anghyson yw perthnasedd y cynlluniau gweithredu i'r Ddeddf a, hyd y gwn i, bach iawn o gydweithredu fu gyda chymdeithas sifil wrth eu llunio, gan golli peth o'r momentwm ac ewyllys da a grëwyd adeg llunio'r Strategaeth.

4.5 Yn fwy cyffredinol, mae'r Ddeddf yn dioddef gan yr hyn mae'r Comisiynydd yn ei alw yn 'fylchau wrth weithredu' y Ddeddf, ac fe geir sawl enghraifft o'r rhain yn Adroddiad y Comisiynydd. Byddwn yn nodi fod hyn yn agwedd o arddull Llywodraeth Cymru parthed deddfau uchelgeisiol eraill hefyd, megis Deddf yr Amgylchedd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae yna gwestiynau ynghylch addasrwydd deddfu ar sail nodi uchelgeisiau yn hytrach nag ar sail camau diriaethol sy'n mynd tu hwnt i'r Ddeddf hon. Byddwn yn argymell darlith Dr Sarah Nason, Cyfiawnder Gweinyddol Cymreig: Hawliau, Dyletswyddau, a Goblygiadau i'r Gwasanaethau Cyfreithiol a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol 2019. Yn anffodus nid wyf wedi gallu dod o hyd i destun y ddarlith hon wedi'i chyhoeddi, ond ceir peth o'i chynnwys yn adran 6.1 ym mriff ymchwil Dr Nason i Wasanaeth Ymchwil y Senedd am Gyfiawnder Gweinyddol yng Nghymru - https://senedd.wales/research%20documents/20-27-justice-senedd-1/20-27-web-welsh.pdf

**5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**

5.1 Fel y mae'r Comisiynydd yn nodi yn ei hadroddiad 2020, mae rhai o ddatblygiadau argyfyngau'r cyfnod presennol wedi cyflymu gweithredu agweddau ar y Ddeddf, trwy orfodi cydweithio mewn ffordd integredig wrth wynebu anawsterau a ddaeth o gyfeiriadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, mae gwaith ar ystyried oblygiadau hirdymor camau a gymerir wedi cael ei lesteirio. Yr enghraifft amlycaf ynghylch COVID, mae'n debyg, yw i Strategaeth Unigrwydd Llywodraeth Cymru, *[Cysylltu Cymunedau]*, gael ei chyhoeddi yn Chwefror 2020, tra bod y camau a gymerwyd o fis Mawrth ymlaen wedi mynd yn gwbl groes i'r strategaeth honno. Tra'n deall y pwysau ar y Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill, mae mawr angen sicrhau fod gweithredu'r Ddeddf wedi'i wreiddio mor ddwfn ym mhroses llunio polisi Llywodraeth Cymru fel bod hyd yn oed argyfwng sydyn yn denu ymateb sy'n gydnaws â'r Ddeddf, ac yn enwedig â strategaethau hirdymor a gyhoeddwyd eisoes.


**6. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.**

6.1. Mae gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus yn golygu yn y lle cyntaf gwreiddio'r pum dull o weithio yn Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, a chyrff cyhoeddus eraill megis y

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Credaf fod hynny hyd yn oed yn bwysicach na gwreiddio’r saith nod llesiant – os ceisir cyrraedd y nodau trwy ddulliau nad ydynt yn gydnaws â’r pum dull o weithio, yna ni fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu fel y bwriadwyd, a bydd y cynnydd yn llesiant cenedlaethau’r dyfodol lawer yn llai nag y dylai fod.

6.2. Yn wyneb hynny, mae angen i hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant mewn swydd gweision sifil gael ei lunio o gwmpas y pum dull o weithio. Nid pwnc ychwanegol at yr hyfforddiant ddylai hyn fod, ond craidd yr hyfforddiant. Dylid sicrhau fod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyd-lunio gyda mudiadau a dinasyddion y tu allan i’r gwasanaeth sifil, gan fodelu’r Ddeddf ar waith. Dylai’r un peth gael ei gyflwyno i hyfforddiant swyddogion llywodraeth leol a swyddogion cyrff cyhoeddus eraill – gan wneud hynny mewn ffordd gydlynus ac integreiddiedig, yn unol â’r Ddeddf.

6.3. Nid yw’n eglur i mi fod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn llwyddo hyd yma yn eu gwaith o gyflwyno dulliau gweithio’r Ddeddf ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Mae angen i’r Byrddau fod yn ddychmygus, yn gydweithiol ac yn gynhwysol wrth ddyfeisio ffyrdd o wrando ar eu poblogaeth leol yng nghamau cyntaf llunio polisïau a strategaethau – ac nid yn bennaf wrth ‘ymgynghori’ tua diwedd y broses o’u llunio.



**Parch./Revd Gethin Rhys**
**Swyddog Polisi / Policy Officer**
**Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru | Cytûn: Churches together in Wales**
Swyddfa gofrestredig/Registered office: Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court, Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
**Yn gweithio gartref / Working from home.** Mudol/Mobile: +44 (0)7889 858062
*Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg. Happy to communicate in Welsh or English*
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: “Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited” | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: “Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited” | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

25.11.2020